**Cyfarfod: Cyd-bwyllgor Archwilio**
**Lleoliad: Teams**
**Dyddiad: 26 Mawrth 2025**
10.00y.b. – 12.35y.h.

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Ms Kate Curran (KC) Cadeirydd<br>Ms Julie James (JJ)<br>David Macgregor (DM)<br>Ms Caroline Wheeler (CW) |
| **Mynychwyr y Cyd-bwyllgor Archwilio** | Mr Ifan Charles, Dirprwy Brif Gwnstabl (IC)<br>Ms Carys Morgans, Prif Swyddog Gweithredol (CM)<br>Mr Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (EH)<br>Ms Nicola Davies, Prif Swyddog Cyllid Dros Dro (ND)<br>Ms Fiona Roe, TIAA (FR)<br>Mr Jonathon Maddock, TIAA (JM)<br>Mr Jason Blewitt, Archwilio Cymru (JB)<br>Ms Louise Harries,<br>Ms Gaynor Maddox, Pennaeth Rhaglenni a Newid (GM)<br>Ms Michelle Reynolds, Pennaeth Cyllid Dros Dro (MR)<br>Mr Richard Janas, Arolygydd Archwiliadau AHEF (RJ)<br>Mr Neil Evans, Rheolwr Busnes SCHTh (NE) |
| **Ymddiheuriadau:** | Mr Farhan Shakoor, Aelod Pwyllgor (FS)<br>Mr Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (DLl)<br>Dr Richard Lewis, Prif Gwnstabl (RL)<br>Ms Beverley Peatling, Prif Swyddog Cyllid<br>Ms Aneesa Ali, Archwilio Cymru (AA) |
| **Datganiadau o Fuddiant:** | Dim |

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O'R CYFARFOD AR 5 Rhagfyr 2024 | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhif y cam gweithredu** | **Crynodeb o'r cam gweithredu** | **I'w symud ymlaen gan** | **Cynnydd** |
| A 45 | Bod adolygiad o'r defnydd o daenlenni fel modd o gofnodi gwybodaeth iechyd a diogelwch yn cael ei gynnal a chysylltu â Heddlu Gogledd Cymru i nodi arferion gorau posibl. | SB | **Ar y gweill:** Gwneir cysylltiadau â Heddlu Gogledd Cymru i nodi arferion gorau posibl a darparu diweddariad i'r pwyllgor. |
| A48 | Bod y polisi gwyngalchu arian yn cael ei grybwyll yn y polisi twyll a gwrthlygredigaeth. | HD | **Wedi'i gwblhau:** Yn dilyn trafodaethau gyda Phennaeth yr Adran Safonau Proffesiynol, cytunwyd nad oes angen sôn am wyngalchu arian yn benodol gan fod hyn yn cael ei ystyried yn awtomatig o dan unrhyw drosedd twyll. |

**1. Cadarnhau cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2025**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2025 fel cofnod cywir gan y pwyllgor.

**2. Adolygiad o Gamau Gweithredu Heb eu Cyflawni**

Cam Gweithredu A14 - Bod y pwyllgor yn cynnal hunanasesiad o'r broses archwilio mewnol a gynhaliwyd gan TIAA ymhen 12-18 mis. Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei gynnwys yng nghynllun gwaith y Pwyllgor ac y gellid ei ryddhau.

Cam Gweithredu 24 - Bod ystyriaeth yn cael ei roi i gynnwys adolygiad o bolisi a gweithdrefnau chwythu'r chwiban yng Nghynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2025/26 – cynghorwyd y Pwyllgor ei fod wedi'i gytuno na fyddai hyn yn rhan o'r Cynllun Blynyddol ar gyfer 2025/2026 gan y byddai'r maes hwn yn ffocws gwaith penodol y Bwrdd Sicrwydd Safonau Proffesiynol. Roedd y Pwyllgor yn fodlon i'r cam gweithredu hwn gael ei gau.

## 3. Cynllun Gwaith y Cyd-bwyllgor Archwilio

Ystyriodd y Pwyllgor y cynllun gwaith ac fe'u cynghorwyd y byddai cynllun gwaith y pwyllgor yn cael ei ddiweddaru unwaith y byddai'r cynllun archwilio mewnol wedi'i gytuno.

## 4. Cylch Gorchwyl y Cyd-bwyllgor Archwilio

Ystyriodd y Pwyllgor y cylch gorchwyl drafft diwygiedig ar gyfer y Cyd-bwyllgor Archwilio ac fe'u cynghorwyd nad oedd llawer o newidiadau.

Dywedodd NE fod y newidiadau a wnaed fel a ganlyn:

- Mae dolen i god Rheolaeth Ariannol CIPFA wedi'i dileu gan y byddai hyn yn tywys pobl i safle ar gyfer prynu'r cod. Os yw Aelodau angen copi, gall yr Heddlu a SCHTh sicrhau eu bod nhw'n derbyn un.
- Ychwanegwyd pwynt bwled ar dudalen 4 yn nodi bod y Pwyllgor yn cael cyfle i ystyried a sylwi ar gwmpas adolygiadau archwilio mewnol.
- Ychwanegwyd brawddeg i alluogi'r Pwyllgor i ystyried gwaith yr archwilwyr mewnol yn unol â'r safonau archwilio mewnol rhyngwladol.
- Diwygiwyd teitl swydd GM.
- Rhestrwyd holl gyfarfodydd Bwrdd yr Heddlu y gall aelodau'r Cyd-bwyllgor Archwilio eistedd arnynt fel ymgynghorwyr.

Sicrhaodd JM fod cyfarfodydd amrywiol wedi'u cynnal yn ddiweddar mewn perthynas â chwmpas adolygiadau archwilio mewnol. Awgrymodd KC bod ffocws yn parhau yng Nghylch Gorchwyl y Cyd-bwyllgor Archwilio gan y bydd yn rhoi cyfle i aelodau sylwi ar archwiliadau o ddiddordeb arbennig.

Holodd CW pa un ai a oes mesurau ar waith i fonitro annibyniaeth archwilwyr mewnol, yn arbennig gan ei fod wedi'i gynnwys o fewn y cylch gorchwyl. Yn benodol, meddyliodd CW yn benodol pa un ai a oes cofrestr neu gofnod ar gyfer rhoddion neu letygarwch. Cadarnhaodd JM bod disgwyl i swyddogion a gyflogir gan TIAA gyflwyno datganiadau o fuddiant bob blwyddyn. Dywedodd JM nad yw'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys o fewn yr adroddiad archwilio mewnol.

Dywedodd KC bod angen ethol y Cadeirydd bob yn eilflwydd yn ôl y cylch gorchwyl. Yn y gorffennol, cytunwyd ar benodiad y Cadeirydd drwy drafodaethau gydag Aelodau, ond nid oedd yn cael ei ddogfennu. Cyn y cyfarfod nesaf, bydd CM a NE yn gofyn am enwebiadau ar gyfer swydd y Cadeirydd a bydd hyn yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar gyfer cymeradwyaeth ffurfiol.

**Cam Gweithredu A64 - PSG a NE i ofyn am enwebiadau ar gyfer swydd Cadeirydd y Cyd-bwyllgor Archwilio.**

**Cam Gweithredu A65 – NE i gwrdd ag aelodau i drafod eu blaenoriaethau ar gyfer 2025/2026.**

5. **Derbyn diweddariad o Gyfarfod y Grŵp Llywodraethu Archwilio a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2025.**

Rhoddodd MR ddiweddariad ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2025 a chynghorodd fod yr holl adolygiadau archwilio mewnol wedi'u cwblhau ar gyfer 2024/2025. Nodwyd bod 7 adolygiad wedi'u symud i fis Medi a holodd DM pa un ai a oedd y rheswm am hyn wedi'i drafod a pha un ai a oedd yn rhesymol. Dywedodd MR fod 6 o'r adolygiadau'n ymwneud â'r Ddeddf Diogelu Data.

Holodd DM pam nad oedd ymatebion i'r adolygiad o'r strategaeth lles wedi'u derbyn am 43 diwrnod a chytunodd MR i ymchwilio ymhellach i'r rheswm dros yr oedi hir.

Gofynnodd JJ am ddiweddariad mewn perthynas â'r adolygiad recriwtio Cymru gyfan a'r ffaith bod hyn wedi'i ohirio er bod diweddariad diweddar. Cynghorodd MR y byddai cyswllt pellach yn cael ei wneud er mwyn sefydlu'r sefyllfa mewn perthynas â'r cytundeb Adran 22.

Holodd JJ pa un ai a oedd yr ymarfer pen desg mewn perthynas â Pharhad Busnes wedi'i gyflawni. Dywedodd GM fod hyn wedi'i gyflawni a bod canllawiau, adnoddau a dogfennau wedi'u lanlwytho er mwyn i staff gyfeirio atynt. Y cam nesaf fydd cwblhau'r cynllun. Rhoddodd GM gyfle i aelodau o'r pwyllgor fynychu sesiwn i weld y broses o brofi ac ymarfer.

**Cam Gweithredu A66 – MR i ymchwilio i'r rheswm dros yr oedi hir o ran sylwadau rheolwyr ar Adolygiad TIAA o Reolaeth AD – Strategaeth Lles ac adrodd yn ôl wrth y Pwyllgor.**

6. **Ystyried camau gweithredu cyfarfod y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2025 (Cyfarwyddwr Cyllid)**

Rhoddodd EH ddiweddariad ar gyfarfod y grŵp Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2025. Trafododd y cyfarfod y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol diwygiedig a oedd ar yr agenda ar gyfer cyfarfod y Cyd-bwyllgor Archwilio. Cynhaliwyd trafodaethau pellach mewn perthynas â'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac mae cyfarfod nesaf y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol wedi'i drefnu ar gyfer 18 Mehefin fel bod modd anfon y Datganiad gyda'r cyfrifon blynyddol drafft.

7. **Ystyried yr adroddiadau canlynol gan yr archwilwyr mewnol:**

### a. Ystyried Adroddiad Sicrwydd Rheoliadau Mewnol Cryno 2023/24

Cyflwynodd JM yr Adroddiad Sicrwydd Rheoliadau Mewnol Cryno i'r Pwyllgor a thynnodd sylw at y ffaith nad oedd unrhyw argymhellion blaenoriaeth 1 wedi'u gwneud ers yr adroddiad diwethaf ac na fu unrhyw achosion o dwyll.

Cynghorwyd yr aelodau bod yr unig eitem sy'n weddill yn ymwneud â'r adolygiad Cadw Data, a oedd wedi'i symud i 31 Mawrth 2025 gan mai adolygiad ychwanegol ydoedd a fyddai'n defnyddio rhai o'r dyddiau o archwiliadau ar y cyd a gafodd eu canslo.

Holodd yr aelodau p'un a oedd y dolenni yn Atodiad B yr adroddiad ar gael ar wefan TIAA yn uniongyrchol gan nad oedd aelodau'n medru cael mynediad iddynt drwy'r dolenni o fewn yr adroddiad. Cynghorodd JM y byddai'n gwirio hyn ac yn adrodd nôl wrth y Pwyllgor.

**Cam Gweithredu A67 - JM i wirio bod y dolenni o fewn yr adroddiad ar gael ar wefan TIAA.**

### b. Ystyried Adroddiad Dilynol Diwedd Blwyddyn 2024/2025

Ystyriodd yr Aelodau'r adroddiad a ddangosodd bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf. Roedd 20 o argymhellion wedi'u gweithredu ac roedd 7 dal heb eu cyflawni. Nodwyd bod y gwaith a wnaed gan Swyddogion a'r Grŵp Llywodraethu Archwilio wedi cynorthwyo â'r cynnydd a wnaed.

### c. Ystyried yr Adolygiad Cydweithredol o Gynaliadwyedd

Cyflwynodd JM adroddiad yr Adolygiad ar y Cyd o Gynaliadwyedd a chynghorodd fod yr adolygiad wedi canfod sicrwydd rhesymol gan nodi 3 argymhelliad Blaenoriaeth 2 a 6 argymhelliad Blaenoriaeth 3. Roedd yr argymhelliad cyntaf y rhoddwyd Blaenoriaeth 2 iddo'n ymwneud â Strategaeth Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio a chadarnhawyd bod yr argymhelliad hwn eisoes wedi'i weithredu a strategaeth newydd wedi'i lansio. Roedd yr ail argymhelliad Blaenoriaeth 2 yn ymwneud â'r strwythur llywodraethu a'r prosesau adrodd sydd newydd eu sefydlu a chadarnhawyd y byddai strwythur llywodraethu newydd yn cael ei roi ar waith o 1 Ebrill 2025. Roedd y trydydd argymhelliad Blaenoriaeth 2 yn ymwneud â chwblhau'r data gwaelodlin ar gyfer allyriadau carbon. Cynghorwyd y Pwyllgor bod y gwaith hwn yn mynd rhagddo gyda golwg ar gwblhau'r gwaith erbyn 1 Mehefin 2025.

Nododd yr aelodau fod cynnydd mewn perthynas â'r targed o ran cerbydau trydan yn is na'r targed ac fe wnaethant holi am y rhesymau dros hyn. Nodwyd

fod strwythur yr Heddlu'n wahanol i eraill a'u bod yn cael eu cyflwyno'n ofalus gan fod angen cyflwyno'r isadeiledd ynghyd â'r cerbydau a bod yr isadeiledd yn ddrud. Yn ogystal, mae dewisiadau pellach yn cael eu datblygu ar hyn o bryd yn y diwydiant moduro a all fod yn ddewisiadau amgen. Cynghorodd EH ei bod hi'n hollbwysig buddsoddi yn y cynnyrch iawn yn Nyfed-Powys o ystyried maint yr ardal Heddlu.

Nododd y Cadeirydd bod y sylwadau gan y rheolwyr a gynhwysir o fewn yr adroddiad wedi'u strwythuro'n dda ac yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor eu bod wedi deall yr argymhellion a chytuno arnynt.

### ch. Ystyried yr Adolygiad Cydweithredol o'r Gyflogres

Ystyriodd yr Aelodau'r adolygiad cydweithredol o'r Gyflogres a dderbyniodd sicrwydd sylweddol heb unrhyw argymhellion. Roedd hi'n dda gan yr aelodau nodi'r parhad a'r cysondeb o fewn y maes hwn.

### d. Ystyried yr Adroddiad Sicrwydd o Bensiynau

Ystyriodd yr aelodau'r adolygiad Sicrwydd o Bensiynau a dderbyniodd sicrwydd sylweddol heb unrhyw argymhellion.

Holodd yr aelodau pa un ai a oedd y gwaith y tynnwyd sylw ato'n flaenorol mewn perthynas â chyfraniadau'n parhau yn dilyn diweddariad mewn cyfarfod blaenorol. Cynghorodd EH fod hyn yn ymwneud ag ymgymryd â chymod ar sail fisol yn hytrach na blynyddol a chadarnhawyd bod y gwaith hwn yn parhau.

### dd. Ystyried yr Adolygiad Sicrwydd o Lywodraethu, Cynllunio Strategol, Datganiad Rheoli'r Heddlu a Data

Derbyniodd yr Aelodau'r adolygiad Sicrwydd o Lywodraethu, Cynllunio Strategol, Datganiad Rheoli'r Heddlu a Data ac roeddent yn falch o nodi bod yr adolygiad wedi derbyn sicrwydd sylweddol heb unrhyw argymhellion.

Cynghorodd JM yr Aelodau y bu cynnydd da yn y maes hwn, yn arbennig o ran y ffordd mae'r Cylch Sicrwydd a Chynllunio'n cysylltu â Datganiad Rheoli'r Heddlu.

## 8. Adolygiad Cydweithredol Diwygiedig o Ddiogelu Data

Derbyniodd yr aelodau adroddiad diwygiedig ar yr Adolygiad Cydweithredol o Ddiogelu Data. Cynghorodd JM fod sawl cyfarfod wedi'u cynnal yn dilyn

ystyriaeth o'r adroddiad gwreiddiol i drafod y deilliannau a daethpwyd i gytundeb y dylid diwygio'r adroddiad.

Nodwyd bod yr adroddiad wedi'i ailasesu fel sicrwydd cyfyngedig oherwydd yr argymhellion adio a gynhwysir yn yr adroddiad.

Cynghorodd y Cadeirydd bod y Pwyllgor yn fwy cyfforddus â'r argymhellion ychwanegol ond cafodd ei sicrhau bod y materion eisoes yn cael eu trin ac y bydd unrhyw argymhellion sy'n weddill yn cael eu monitro gan y Bwrdd Sicrwydd Gwybodaeth.

**9. Cynllun Archwilio Mewnol 2025/2026**

Derbyniodd yr Aelodau'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2025/2026 a chawsant eu cynghori na fu unrhyw newidiadau arwyddocaol i'r drafft a ystyriwyd yn y cyfarfod blaenorol. Gofynnwyd i'r aelodau gymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol o fewn yr adroddiad fel rhan o'r Safonau Archwilio Byd-eang.

Nododd yr aelodau bod nifer o archwiliadau yn 2025/2026 mewn perthynas ag Adnoddau Dynol a gofynnodd yr Aelodau am i'r adran Adnoddau Dynol fynychu'r cyfarfod nesaf pan mae'r adolygiadau'n cael eu hystyried.

Cytunodd yr aelodau i'r cynllun a'r Siarter Archwilio Mewnol a gynhwysir yn y cynllun.

**Cam gweithredu A68 – bod aelodau staff o AD yn mynychu cyfarfodydd yn y dyfodol pan mae'r adolygiadau'n cael eu hystyried gan y Pwyllgor.**

**10. Llythyr Archwilio Blynyddol 2023/2024 Archwilio Cymru**

Ystyriodd yr aelodau Lythyr Archwilio Blynyddol 2023/2024 sy'n crynhoi'r negeseuon allweddol a'r casgliadau a gyrhaeddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas â Heddlu Dyfed-Powys.

**11. Memorandwm 2023/2024 Archwilio Cymru**

Ystyriodd yr aelodau Femorandwm 2023/2024 Archwilio Cymru a dynnodd sylw at unrhyw faterion a oedd yn deillio o'r archwiliad a gynhaliwyd ar Ddatganiadau Ariannol 2023/2024.

Roedd hi'n dda gan yr aelodau nodi'r cynnydd a wnaed gan swyddogion mewn perthynas â'r broses sicrhau ansawdd ac roedd y gwaith yr ymgymerwyd ag ef wedi cynorthwyo â phroses mwy effeithiol mewn perthynas â chwblhau'r cyfrifon.

## 12. Cynllun Archwilio 2024/2025 Archwilio Cymru

Derbyniodd y Pwyllgor Gynllun Archwilio 2024/2025 Archwilio Cymru dywedwyd wrthynt y byddai'r rhan fwyaf o'r gwaith, yn ôl yr arfer, yn ymwneud ag ystyried y datganiadau ariannol ar gyfer 2024/2025, ac fe'u cynghorwyd y byddai'r cyfrifon terfynol yn cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor ym mis Hydref 2025.

Cynghorwyd yr aelodau mai amcangyfrif oedd y ffi archwilio, ac y gallai fod yn is na'r disgwyl, yn enwedig os glynir wrth yr amserlen.

Roedd hi'n dda gan y Pwyllgor nodi parhad y tîm o Archwilio Cymru gan y bydd hyn yn helpu'r broses a chawsant eu sicrhau y byddai amserlen eleni'n cael ei dilyn oherwydd gwaith a wnaed yn flaenorol mewn perthynas ag amseriadau.

## 13. Amserlen Polisïau Cyfrifeg a Datganiad o Gyfrifon 2024/2025

Derbyniodd yr aelodau'r adroddiad ar Bolisïau Cyfrifeg 2024/2025 ac fe'u cynghorwyd bod ond un newid ar gyfer eleni mewn perthynas ag IFRS 16. Cynghorwyd y Pwyllgor bod aelodau staff wedi mynychu cyrsiau a gweithdai amrywiol mewn perthynas â'r maes hwn i sicrhau bod y materion o brydlesi o dan IFRS 16 yn cael eu deall yn llawn.

Croesawodd DM yr adroddiad a nododd ei fod yn gryno, cynhwysfawr a chlir, sy'n helpu Aelodau i ymgymryd â'u rôl archwilio.

## 14. Y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, Cronfeydd Wrth Gefn a'r Strategaeth Gyfalaf

Cynghorodd ND fod y Pwyllgor eisoes wedi derbyn Cynllun Ariannol Tymor Canolig drafft a bod yr adroddiad terfynol hwn yn cynnwys mân ddiwygiadau yn dilyn y setliad terfynol.

Nododd DM hefyd ei bod yn ymddangos bod cynnydd sylweddol o ran marwolaethau neu anafiadau difrifol a achosir drwy yrru anghyfreithlon, gyda ffigurau am ran o'r flwyddyn hyd at fis Rhagfyr 2024 yn dangos 32 achos yn hytrach na 5 yn y flwyddyn flaenorol. Cynghorodd y DBG fod adroddiad wedi'i gynhyrchu yn ddiweddar mewn perthynas â marwolaethau ar y ffyrdd ac y byddai hwn yn cael ei wirio am gywirdeb ac ymateb yn cael ei roi i'r Pwyllgor o ran pa un ai a yw'r ffigwr yn gywir ai peidio.

Holodd CW pa un ai a'r ffaith bod swyddogion plismona'r ffyrdd wedi'u symud i blismona ymateb oedd y rheswm am y cynnydd yn y ffigurau. Dywedodd y DBG fod gwerthusiad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ac y byddai mewn sefyllfa i ymateb yn llawn i'r ymholiad unwaith y byddai'r gwerthusiad wedi'i gwblhau.

**Cam Gweithredu 69 – bod y DBG yn gwirio pa un ai yw'r ffigurau mewn perthynas â marwolaethau neu anafiadau difrifol a geir yn y tabl yn gywir ai peidio.**

## 15. Strategaeth Rheoli'r Trysorlys

Ystyriodd y Pwyllgor y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys gan gynnwys dangosyddion cynghorus, y gofyniad ariannu cyfalaf a'r polisi darpariaeth refeniw lleiaf ar gyfer 2025/2026.

Holodd DM am y terfynau buddsoddi a cheisiodd ddeall pam bod y terfyn buddsoddi o £8 miliwn yn ymddangos yn ormodol yn erbyn y gyllideb bresennol er nad yw cyllideb Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu mor fawr â rhai cyrff cyhoeddus. Holodd y Cadeirydd pa un ai a oedd y terfyn hwn wastad wedi bod yr un peth. Cytunodd ND i wirio hanes hyn yn ogystal â sut oedd y terfynau'n cymharu â strategaethau Comisiynwyr Heddlu a Throseddu eraill a chyrff cyhoeddus o faint tebyg ar gyfer rheoli'r trysorlys.

**Cam Gweithredu A70 – Y PSC/DD i wirio'r terfyn buddsoddi o £8 miliwn ac ymgymryd â chymhariaeth yn erbyn Swyddfeydd Comisiynwyr Heddlu a Throseddu tebyg a chyrff cyhoeddus o faint tebyg.**

## 16. Diweddariad ar Restr Wirio Rheolaeth Ariannol CIPFA

Ystyriodd yr aelodau adroddiad diweddaru ar y cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn Rhestr Wirio Rheolaeth Ariannol CIPFA. Cynghorwyd y Pwyllgor bod y rhestr wirio wedi'i datblygu gan CIPFA er mwyn caniatáu i sefydliadau hunanasesu eu trefniadau cynllunio ariannol yn erbyn arfer gorau. Gwneir hyn bob blwyddyn yn dilyn y broses o osod y gyllideb.

Roedd hi'n dda gan yr aelodau nodi bod cynnydd wedi'i wneud mewn perthynas â chynllunio senarios ariannol o safbwynt gosod cyllideb yn arbennig.

Holwyd pa un ai a oedd y ffigwr o £25,000 ar gyfer gwerthusiad dewisiadau'n ddigonol ar gyfer ymgymryd â gwaith o'r fath. Dywedodd EH fod yr Heddlu'n ceisio bod yn ddisgybledig fel bod yr holl ddewisiadau'n cael eu hystyried gan ddefnyddio'r adolygiad 5 achos safon gyhoeddus waeth pa mor fawr neu fach yw'r gwariant sydd angen. Mae hyn yn edrych ar y manteision posibl a'r elw o fuddsoddiadau ac yn cael eu hystyried gan y grŵp prosiect ac ariannu.

## 17. Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol 2025/2026

Cynghorodd y PSG yr Aelodau y byddai’r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn cael ei ystyried yn dilyn adolygiad diweddar sydd wedi sicrhau bod y fframwaith nawr yn cynnwys newidiadau i ddeddfwriaeth gaffael. Cynghorwyd yr aelodau ymhellach bod y fframwaith drafft wedi’i ystyried a’i gytuno gan y Bwrdd Llywodraethu Corfforaethol.

Cymeradwyodd y Pwyllgor y diwygiadau a geir o fewn y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol.

### 18. Fframwaith Rheoli Risg

Rhoddodd GM adroddiad i’r Pwyllgor ar y Fframwaith Rheoli Risg a chynghorodd fod holl feysydd y polisi wedi’u hadolygu a’r awydd risg wedi’i rannu gyda swyddogion arweiniol ar gyfer sylwadau ac ni chafwyd dim eleni.

Roedd hi’n dda gan y Cadeirydd weld y Fframwaith Rheoli Risg oherwydd mae’n cynorthwyo’r Pwyllgor i ymgymryd â’u rôl o ran rheoli risg.

### 19. Diweddariad gan AHGTAEF

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad diweddaru ar weithgarwch gan Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi. Cynghorwyd y Pwyllgor fod yr Heddlu wedi cael gwybod bod yr archwiliad llawn nesaf wedi’i drefnu ar gyfer mis Mai 2026 gyda’r broses yn cychwyn ddiwedd 2025.

Mewn ymateb i archwiliadau blaenorol, ar hyn o bryd, mae 28 maes i’w gwella a 56 argymhelliad sydd ar agor. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar y meysydd hyn, ac ers y cyfarfod diwethaf, mae 5 argymhelliad ac 1 maes ar gyfer gwella wedi’’u cymeradwyo, ac mae 8 maes arall ar gyfer gwella wedi’u gosod ar gyfer cymeradwyaeth yn fewnol.

Cynghorwyd y Pwyllgor bod rhagor o feysydd wedi’u cymeradwyo ers i’r agenda gael ei gyhoeddi ac y byddai adroddiad diwygiedig yn cael ei rannu yn dilyn y cyfarfod.

Holodd y Cadeirydd ai’r uchelgais oedd clirio’r holl feysydd ar gyfer gwella gan yr archwiliad ym mis Mai 2026 oedd yr uchelgais. Cadarnhaodd RJ mai dyna yw’r gobaith a bod cynnydd da’n cael ei wneud gyda nifer wedi’u paratoi ar gyfer cymeradwyaeth fewnol cyn i AHGTAEF eu hystyried o fewn y 3 – 6 mis nesaf.

Holodd DM gwestiwn mewn perthynas ag amseroldeb cofnodi troseddau gan ei fod wedi bod yn faes pryder ar gyfer yr Heddlu ers cryn amser a hefyd pa un ai a oes unrhyw feincnodi wedi bod ar y maes hwn.

Dywedodd RJ ei fod yn faes cymhleth ac mai’r mater cyntaf yr oedd angen mynd i’r afael ag ef oedd Unplygrwydd Data Trosedd er mwyn sicrhau bod yr holl

droseddau'n cael eu cofnodi pan y dylent gael eu cofnodi. Mae'r gwaith hwn wedi gweld cynnydd i tua 92% ar gyfer unplygrwydd data trosedd. Mae amseroldeb dal yn cael ei ddatblygu sy'n cysylltu â gwaith ar fodel gweithredu'r heddlu a gwaith yng Nghanolfan Reoli'r Heddlu. Mae'r Heddlu'n meincnodi yn erbyn yr Heddluoedd sy'n perfformio'n well i ddeall sut maen nhw wedi gwneud newidiadau i hwyluso gwelliannau.

**20. Cofrestr Risg yr Heddlu**

Ystyriodd y Pwyllgor Gofrestr Risg Corfforaethol yr Heddlu. Dywedodd y Cadeirydd bod y maes fetio wedi'i gynnwys ar y gofrestr risg ac yn adroddiadau AHGTAEF, ond eto, derbyniodd archwiliad mewnol diweddar sicrwydd sylweddol. Awgrymodd y Cadeirydd bod angen triongliant o gwmpas yr hyn sy'n cael ei adolygu er mwyn sicrhau bod y gofrestr risg ac unrhyw adroddiadau archwiliad perthnasol yn cyfrannu at yr adolygiadau er mwyn cyflwyno darlun mwy cywir.

**21. Cofrestr Risg SCHTh**

Cynghorwyd yr aelodau bod sgôr wedi'i leihau mewn perthynas â'r perygl Cadeirydd Wedi Ymgymhwyso yn y Gyfraith oherwydd tra bod y risg yn parhau, mae'r paneli'n mynd yn eu blaen. Mae trafodaethau wedi'u cynnal gyda chymheiriaid ledled Cymru i ddeall eu sefyllfa o ran y maes hwn a bydd yr ymatebion yn cael eu hystyried maes o law.

Mewn perthynas â'r risg Canolfan Gyfeirio Ymosodiadau Rhywiol, cynghorwyd y Pwyllgor y byddai hyn yn cael ei ddwysáu cyn hir i Fwrdd Partneriaeth Plismona Cymru a Llywodraeth Cymru oherwydd difrifoldeb y risg yn y maes hwn.

**22. Gweithgarwch Twyll**

Cynghorwyd yr aelodau nad oes unrhyw weithgarwch twyll cyfredol i adrodd amdano ar hyn o bryd.

**23. Diweddariadau'r Aelodau**

Doedd dim diweddariadau gan yr Aelodau ar gyfer y cyfarfod.

**24. Unrhyw Fusnes Arall**

Cynghorwyd yr Aelodau bod gwaith pellach yn cael ei gyflawni mewn perthynas â mynediad TGCh Aelodau a bod ystyriaeth yn parhau o ran pa un ai a fyddai angen trwydded Microsoft Teams eu hunain ar Aelodau er mwyn cael mynediad i'r system. Mae TGCh wedi ymddiheuro am yr oedi o ran cyflwyno, ond maent yn gwneud eu gorau glas i sicrhau y bydd yn llwyr weithredol unwaith y bydd wedi'i gyflwyno.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:**

**31 Gorffennaf 2025 – Cyd-bwyllgor Archwilio**

| | CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O'R CYFARFOD AR (26 Mawrth 2025) | | |
|---|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w ddatblygu gan** | **Cynnydd** |
| A 64 | PSG a NE i ofyn am enwebiadau ar gyfer swydd Cadeirydd y Cyd-bwyllgor Archwilio | NE | **Wedi'i gwblhau –** Gofynnwyd am enwebiadau a byddant yn cael eu cyflwyno i'r cyfarfod nesaf |
| A 65 | NE i gwrdd ag Aelodau i drafod eu blaenoriaethau ar gyfer 2025/2026 | NE | **Wedi'i gwblhau –** Mae'r Aelodau wedi darparu eu sylwadau ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor |
| A 66 | MR i ymchwilio i'r rheswm dros yr oedi hir o ran sylwadau rheolwyr ar Adolygiad TIAA o Reolaeth AD – Strategaeth Lles ac adrodd yn ôl wrth y Pwyllgor. | MR | **Wedi'i gwblhau -** Mae'r Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a'r Sefydliad wedi cadarnhau bod yr oedi'n ymwneud ag un o'r argymhellion ar gwblhau'r Fframwaith Lles Golau Glas a'r ffordd nad oedd wedi dechrau. Y rheswm am yr oedi oedd bod angen mewnbwn gan nifer o randdeiliaid tu allan i'r adran a bod hyn yn cymryd amser i'w gwblhau. Drwy gyfrwng diweddariad cynnydd, cadarnheir bod yr hunanasesiad Fframwaith Lles Golau Glas (y mae'r argymhelliad yn ymwneud ag ef) wedi'i ddatblygu ymhellach yn awr gan bob rhanddeiliad (Datblygu Arweinyddiaeth, Ystadau, Iechyd a Diogelwch, Iechyd a Lles Galwedigaethol a Chyflenwi Gwasanaeth AD). Mae cynnydd yn cael ei fonitro yn y Bwrdd Pobl, Diwylliant a Moeseg, lle mae'r dangosfwrdd yn cael ei rannu. Bydd y diweddariad cynnydd nesaf yn cael ei rannu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | yn y bwrdd ar 30 Gorffennaf 2025. |
| A 67 | JM i wirio bod y dolenni o fewn yr adroddiad ar gael ar wefan TIAA. | JM | **Wedi'i gwblhau –** Cynghorodd JM fod tîm Marchnata TIAA wedi'i hysbysu er mwyn sicrhau bod y dolenni mewn unrhyw adroddiadau yn y dyfodol yn mynd yn uniongyrchol at wefan TIAA. |
| A 68 | Bod aelodau o staff AD yn mynychu cyfarfodydd yn y dyfodol pan mae'r adolygiadau'n cael eu hystyried gan y Pwyllgor. | NE | **Wedi'i gwblhau –** Mae pob cyfarfod yn nyddiadur y Cyfarwyddwr Datblygu Pobl a'r Sefydliad, a fydd yn trefnu bod y swyddog perthnasol yn bresennol hefyd |
| A 69 | Bod y DBG yn gwirio pa un ai yw'r ffigurau mewn perthynas â marwolaethau neu anafiadau difrifol a geir yn y tabl yn gywir ai peidio. | DBG | **Wedi'i gwblhau –** Fel heddlu, rydyn ni wedi gweld cynnydd o ran nifer y marwolaethau neu anafiadau difrifol drwy yrru anghyfreithlon sy'n cael eu cofnodi, ac yn fwy fyth ers i'r system Niche gael ei chyflwyno gan fod swyddogion yn cofnodi gwrthdrawiadau traffig y ffyrdd angheuol/difrifol ac yn gweithredu dosbarth ystadegau'r Swyddfa Gartref mewn perthynas ag achosi marwolaeth neu anaf difrifol drwy yrru'n anghyfreithlon o'r cychwyn cyntaf pan nad yw'r drosedd wedi'i chwblhau, yn hytrach na digwyddiad gwrthdrawiad traffig y ffyrdd nad yw'n drosedd. Mae Rheolau Cyfrif y Swyddfa Gartref yn nodi y dylai "digwyddiad sy'n gysylltiedig â throsedd gael ei gofrestru ac aros yn fyw tan bod yr ymchwiliad yn cadarnhau bod |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | y drosedd wedi'i chwblhau. Dim ond bryd hynny y dylai trosedd gael ei chofnodi." Ar hen system cofnodi troseddau'r Heddlu, cyflwynwyd ffordd o gofnodi digwyddiad nad oedd yn drosedd (Ymchwiliadau i Wrthdrawiadau Difrifol) megis gwrthdrawiadau traffig y ffyrdd angheuol/difrifol yn 2016/17. Roedd hyn yn caniatáu i swyddogion gofnodi eu hymchwiliadau a'u hymholiadau diweddaredig yn hytrach na bod STORM yn parhau'n fyw tan i'r ymchwiliad ddod i ben, a allai gymryd dros 12 mis mewn rhai achosion. Roedd y digwyddiadau hyn, sy'n cael eu hadnabod fel Ymchwiliadau i Wrthdrawiadau Difrifol, yn galluogi staff o fewn y swyddfa cofnodi troseddau i'w monitro, a phan oedd yr ymchwiliad yn dod i ben, oes oedd unrhyw dramgwyddau troseddol yn cael eu nodi, byddai'r Swyddfa Cofnodion Troseddol yn diwygio'r categori Ymchwiliad i Wrthdrawiad Difrifol i'r dosbarthiad trosedd Swyddfa Gartref cywir. Fodd bynnag, roedd hyn yn dibynnu ar yr Ymchwiliad i Wrthdrawiad Difrifol yn cael ei gofnodi i gychwyn a'i fonitro o fewn y Swyddfa Cofnodion Troseddol. Fel mae'r ffigurau'n dangos, efallai nad oedd hwn yn wiriad rheolaidd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| A 70 | Y PSC/DD i wirio'r terfyn buddsoddi o £8 miliwn ac ymgymryd â chymhariaeth yn erbyn Swyddfeydd Comisiynwyr Heddlu a Throseddu tebyg a chyrff cyhoeddus o faint tebyg | ND | **Wedi'i gwblhau:** Nid yw'r terfynau ar gyfer defnyddio cyfrifon enwebai neu gael grwpiau o gronfeydd cyfun yn berthnasol yn y cyfnod presennol gan fod hylifedd yn flaenoriaeth o ran cefnogi'r rhaglen gyfalaf. Mae rhai heddluoedd wedi dileu'r tabl ar gyfer eu Strategaethau Rheoli'r Trysorlys. Bydd adolygiad pellach yn cael ei gynnal cyn strategaeth 2026/7. |